



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

Cyllideb Atodol

2024-2025

Nodyn Esboniadol

Hydref 2024

llyw.cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dyraniadau Allweddol	3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2024-25	8
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion	17
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion	20
6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn	23
7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	31
Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	33
Atodiad 2 – Ailddatgan Cyllideb Derfynol 2024-25 (Mehafin 2024)	35
Atodiad 3 – Geirfa	44

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y ddogfen hon i:
cymorth@llyw.cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2024-25, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 5 Mawrth 2024.
- 1.2 Cyhoeddwyd ailddatganiad o Gyllideb Derfynol 2024-25 ym mis Mehefin 2024.
- 1.3 Mae ailddatganiad pellach o'r Gyllideb Derfynol yn gosod y llinell sylfaen ar gyfer y gyllideb atodol hon sy'n ailalinio Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru i adlewyrchu portffolios diweddaraf y Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Medi.
- 1.4 Mae'r holl symudiadau o'r strwythur a gyhoeddwyd ym mis Mehefin a'r strwythur presennol wedi'u cynnwys yn y tablau yn Atodiad 2.
- 1.5 Mae'r gyllideb atodol hon yn rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.6 Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.
- 1.7 Mae'r ddogfen hon yn ategu'r tablau 'Llinellau Gwariant yn y Gyllideb' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol

Cyflwyniad

- 2.1** Diben y gyllideb atodol hon yw rheoleiddio cyllideb Llywodraeth Cymru i adlewyrchu newidiadau sy'n codi o Gyllideb Wanwyn Llywodraeth y DU a Phrif Amcangyfrifon 2024-25 mewn cysylltiad â symiau canlyniadol a throsglwyddiadau o adrannau eraill y Llywodraeth ac i adrannau eraill y Llywodraeth.
- 2.2** Nid oes dyraniadau newydd yn y gyllideb hon ac mae'r holl newidiadau yn ymwneud â chyllid a gyhoeddwyd yn flaenorol. Nid yw'r cyllid ychwanegol y cytunwyd arno ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus a [gyhoeddwyd](#) ar 10 Medi wedi'i gynnwys. Bydd hyn yn cael ei ariannu o symiau canlyniadol disgwylidig gan Lywodraeth y DU a bydd y dyraniadau hynny'n cael eu rheoleiddio fel rhan o'r ail gyllideb atodol ym mis Chwefror 2025.

Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol 2024-25

- 2.3** Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE) yw'r broses a ddilynir ar gyfer pennu cyfraniadau cyflogwyr mewn cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu. Efen allweddol o'r broses yw'r gyfradd ddisgownt SCAPE.
- 2.4** Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid ychwanegol i Adrannau'r DU ar gyfer costau uwch newidiadau i'r gyfradd SCAPE ar gyfer cynlluniau pensiwn nad ydynt yn gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, a chafodd Llywodraeth Cymru symiau canlyniadol sy'n deillio o'r cyllid hwnnw ym Mhrif Amcangyfrifon y DU.
- 2.5** O ran y symiau canlyniadol hyn, yn y gyllideb atodol hon dyrannwyd **£117.07m** i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer costau staff y GIG; **£63.811m** i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol ar gyfer costau yn

ymwneud ag athrawon (cyn-16) (£60.706m) a'r Gwasanaeth Tân (£3.105m) ac **£11.925m** i'r MEG Addysg ar gyfer costau yn ymwneud ag athrawon mewn lleoliadau chweched dosbarth (£3.606m) a cholegau addysg bellach (£8.319m).

Y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- 2.6** Mae'r gyllideb atodol hon yn cadarnhau'r dyraniad o **£141.300m** o gyllid canlyniadol o Gyllideb mis Mawrth y DU i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi dyraniadau i GIG Cymru.
- 2.7** Mae'r gyllideb hon yn cynnwys **£39m** a ddyrannwyd i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r [dyfarniad cyflog i feddygon](#) i ddod â gweithredu diwydiannol 2023-24 i ben. [Derbyniwyd](#) y cynigion cyflog perthnasol gan dair cangen ymarfer Cymdeithas Feddygol Prydain.

MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio

- 2.8** Mae'r gyllideb yn rheoleiddio dyraniad o **£5m** i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i gefnogi ac amddiffyn cyrff diwylliant a chwaraeon hyd braich Cymru a Cadw a [gyhoeddwyd](#) ar 7 Medi.

Y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol

- 2.9** Mae dyraniad o **£1.58m** wedi'i wneud i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i gefnogi cynhwysiant digidol, partneriaethau bwyd lleol a'r ymgyrch gyfathrebu costau byw.

Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS16) - Lesoedd

- 2.10** Mae cyllideb atodol gyntaf 2024-25 yn gweithredu effeithiau cyllidebol y newidiadau i'r ffordd y mae trefniadau lesio'n cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn dilyn gweithredu IFRS 16.
- 2.11** Mabwysiadwyd y safon newydd gan y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022 a chafodd ei hadlewyrchu gyntaf yng Nghyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022.

- 2.12** Mae IFRS16 yn nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesioedd. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o lesioedd, ac eithrio'r rhai ar gyfer eitemau gwerth isel neu am lai na blwyddyn, gael eu trin yn y datganiadau ariannol yn gymaradwy ag asedau a berchnogir.
- 2.13** Mae IFRS 16 yn dod â'r mwyafrif o lesioedd i'r fantolen. Ar gyfer y lesioedd hynny, mae tair effaith ar gyllidebau adnoddau (RDEL) a chyfalaf (CDEL):
- gwariant cyfalaf (CDEL) ar ddechrau'r les, ar gyfer yr ased a gydnabyddir ar y fantolen;
 - dibrisiant wedi'i neilltuo (RDEL anghyllidol), oherwydd dibrisiant ar yr ased a lesiwyd dros oes y les;
 - gwariant adnoddau nad yw'n cael ei neilltuo (RDEL cyllidol) ar gyfer y llog a gafwyd dros oes y les.
- 2.14** Ceir effeithiau bach ar gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sef cyfalaf a refeniw mewn perthynas â lesioedd 'hedyn pupur' (h.y. lesioedd â lefel enwol o daliad les) a darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau.
- 2.15** Dim ond i lesioedd newydd a lesioedd wedi'u hadnewyddu o 2022-23 y mae'r gwariant a godir ar CDEL yn gymwys. Bydd dibrisiant a llog yn gymwys i bob les a asesir o dan IFRS16 o 2022-23.
- 2.16** Mae goblygiadau ailddosbarthu'r gyllideb yn sgil mabwysiadu IFRS16 yn cael eu talu gan Drysorlys EF ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol h.y. 2022-23 i 2024-25. Gan fod y setliad blaenorol yn cynnwys RDEL ar gyfer y taliadau lesioedd ar lesioedd presennol, mae rhan o'r ailddosbarthu yn ostyngiad i gyllideb RDEL (cyllidol) gan nad oes angen hyn mwyach. Bydd arian parod yn parhau i fod ar gael i wneud taliadau lesioedd, ond ni fydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu mwyach drwy'r gyllideb RDEL (cyllidol).

2.17 Nid yw gweithredu IFRS16 yn effeithio ar y pŵer gwario presennol. Mae'r addasiadau yn y gyllideb atodol hon yn adlewyrchu'r newidiadau i'r ffordd y mae'n ofynnol bellach adrodd ar drefniadau lesio o fewn y cynlluniau presennol mewn cyllidebau.

2.18 Mae gweithredu IFRS 16 hefyd yn gymwys i Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru. Lle bo angen, mae pob un o'r cyrff hynny wedi darparu Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r newidiadau y mae eu hangen. Mae'r newidiadau hynny bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb atodol hon.

2.19 Yr addasiad cyffredinol i gyllideb Cymru o ganlyniad i weithredu IFRS16 yw:

- Gostyngiad i RDEL (cyllidol) o £116.928m;
- Cynnydd i RDEL (anghyllidol) o £119.929m;
- Cynnydd i CDEL (cyfalaf) o £338.918m

2.20 Mae manylion y MEGs yr effeithir arnynt i'w gweld yn nhabl 6.1 o Bennod 6. Mae Tabl 2 yn nodi'r addasiadau y mae eu hangen i gyllideb 2024-25.

Tabl 2 – Newidiadau i Gyllidebau i Adlewyrchu Gofynion IFRS16

Dyraniadau MEG:	Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	
	Adnoddau (Cyllidol)	Adnoddau (Anghyllidol)	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
	£m	£m	£m	£m	£m
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-43.354	36.252	80.000	1.569	2.281
Llywodraeth Leol a Thai	0	0	0	0	0
Addysg	-0.157	0.293	0	0	0
Trafnidiaeth	-66.715	65.306	180.509	0	0
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	0	0	0	0	0
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	-3.260	3.355	1.260	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	-0.286	0.287	0.128	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1.148	1.318	0.112	0	0
CYFANSWM	-114.920	106.811	262.009	1.569	2.281

Cyrrff a Ariennir yn Uniongyrchol:	Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	
	Adnoddau (Cyllidol)	Adnoddau (Anghyllidol)	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
	£m	£m	£m	£m	£m
Comisiwn y Senedd	-0.215	0.201	0	0	0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-1.768	3.278	0	0	0
Archwilio Cymru	-25	25	0	0	0
CYFANSWM	-2.008	3.504	0	0	0

Cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi		9,614	76.909		
CYFANSWM	-116.928	119.929	338.918	1.569	2.281

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2024-25

- 3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2024-25	Newid-iadau	Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	16,097,547	328,554	16,426,101
Anghyllidol	1,582,490	-532,804	1,049,686
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	86,000	39,000	125,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	38,328	-10,140	28,188
Anghyllidol	375,811	106,727	482,538
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	1,079,000	0	1,079,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	3,491,131	0	3,491,131
Y Dreth Trafodiadau Tir	243,731	0	243,731
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	28,340	0	28,340
Ad-dalu prifswm benthyca	-9,910	1,912	-7,998
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	23,012,468	-66,751	22,945,717
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	2,472,126	482,474	2,954,600
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	50,000	0	50,000
Trafodiadau Ariannol	165,344	0	165,344
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	1,285,227	236,155	1,521,382
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthyca	150,000	0	150,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	4,122,697	718,629	4,841,326
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	27,135,165	651,878	27,787,043

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd			
	Cyllideb Derfynol 2024-25 (Ailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	12,126,138	403,097	12,529,235	
Llywodraeth Leol a Thai	7,347,230	60,167	7,407,397	
Addysg	3,856,426	-92,404	3,764,022	
Trafnidiaeth	1,292,149	369,612	1,661,761	
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	710,519	126,877	837,396	
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	743,870	104,888	848,758	
Cyfiawnder Cymdeithasol	148,291	5,611	153,902	
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	406,333	-2,173	404,160	
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	26,630,956	975,675	27,606,631	
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	32,588	3249	35,837
	Adnoddau Anghyllidol	491,981	-415,231	76,750
Cyfalaf Cyffredinol dros y Dyraniad		-108,974	-1,115	-110,089
Cyfalaf heb ei Ddyrannu	Cyfalaf Cyffredinol – IFRS16	0	76,909	76,909
	Trafodiadau Ariannol	-1,768	11,756	9,988
Comisiwn y Senedd ^{Nodyn 1}		72,195	635	72,830
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru		6,358	0	6,358
Swyddfa Archwilio Cymru		9,459	0	9,459
Y Comisiwn Etholiadol		1,564	0	1,564
Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru		806	0	806
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU		27,135,165	651,878	27,787,043

Nodiadau

1. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2024-25 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid gan Gomisiwn y Senedd ym mis Mai 2024. Adroddodd gynnydd o £635k yn ei hadnoddau cyllidol.

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Derfynol 2024-25 (Ailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024	Cyllideb Derfynol 2024-25 (Ailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	11,031,384	330,624	11,362,008	287,309	36,252	323,561
Llywodraeth Leol a Thai	5,057,634	60,923	5,118,557	0	0	0
Addysg	1,697,506	24,790	1,722,296	518,507	-237,276	281,231
Trafnidiaeth	562,081	-47,995	514,086	226,691	65,306	291,997
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	527,522	239	527,761	20,938	-1,859	19,079
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	440,160	-5,511	434,649	13,871	18,266	32,137
Cyfiawnder Cymdeithasol	133,354	5,063	138,417	213	420	633
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	375,103	-2,551	372,552	17,369	1,318	18,687
Cyfanswm y Dyranid i MEGs Llywodraeth Cymru	19,824,744	365,582	20,190,326	1,084,898	-117,573	967,325

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Derfynol 2024-25 (Ailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024	Cyllideb Derfynol 2024-25 (Ailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2024-25 Cynlluniau Newydd Hydref 2024
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	439,030	87,446	526,476	0	0	0
Llywodraeth Leol a Thai	1,071,630	0	1,071,630	105,809	0	105,809
Addysg	346,500	-373	346,127	2,102	-1,756	346
Trafnidiaeth	457,517	203,789	661,306	13,628	0	13,628
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	232,059	32,497	264,556	20,000	0	20,000
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	205,699	84,133	289,832	25,615	-10,000	15,615
Cyfiawnder Cymdeithasol	14,540	128	14,668	-42	0	-42
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	10,661	-940	9,721	0	0	0
Cyfanswm y Dyranriad i MEGs Llywodraeth Cymru	2,777,636	406,680	3,184,316	167,112	-11,756	155,356

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod ac mae manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld yn adran 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o £328,554k i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol yn cynnwys:
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £338,820k ac yn cynnwys:
 - £168,280k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer y Gwanwyn 2024;
 - £170,540k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2024;
 - Trosglwyddiad o £75,908k i mewn oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - Trosglwyddiadau o £23,086k i mewn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF yn cynnwys:
 - £18,720k mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
 - £4,327k mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
 - £39k mewn perthynas â chyllid Ffiniau;
 - Trosglwyddiadau gwerth £4,551k i mewn oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys:
 - £3,738k mewn perthynas â Chyllid Dysgu a Sgiliau'r Parc;
 - £813k mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir;
 - Trosglwyddiad o £2,590k i mewn oddi wrth yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau mewn perthynas â'r Gronfa Atal Digartrefedd;
 - Trosglwyddiad 'peirianwaith y Llywodraeth' i mewn o £637k mewn perthynas â chyllid y Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
 - Trosglwyddiad o £(116,928)k allan mewn perthynas â rhoi IFRS16 ar waith;

- Trosglwyddiad o £(110)k allan i Drysorlys EF mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Ers y Gyllideb Derfynol mae'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi gostwng £(532,804)k yn cynnwys:

- £1,177k a ddaeth i law yng Nghyllideb y Gwanwyn 2024 mewn perthynas â chywiro addasiad canlyniadol blaenorol;
- Trosglwyddiad i mewn o £119,929k mewn perthynas â rhoi IFRS16 ar waith;
- Gostyngiad o £(653,910)k mewn perthynas â Benthyciadau i Fyfyrrwyr ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2024.

Cyllido Datganoledig Cymru

3.5 Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm trethi datganoledig yn y gyllideb atodol hon – mae'r rhagolygon yn parhau i adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol.

Mae'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthycia wedi gostwng ers y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn cynyddu £1,912k ar faint o gyllid sydd ar gael.

Cyfalaf Cyffredinol

3.6 Cafwyd cynnydd net o £482,474k i'r llinell sylfaen cyfalaf cyffredin yn cynnwys:

- Gostyngiad yn symiau canlyniadol Barnett o £(1,062)k adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Mai 2024.
- Cynnydd mewn ychwanegiadau nad ydynt yn Barnett o £81,500k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf;
- Cynnydd o £338,918k mewn perthynas â rhoi IFRS16 ar waith;
- Trosglwyddiadau o £63,171k i mewn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF yn cynnwys:
 - £20,280k mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
 - £42,891k mewn perthynas â chyllid Ffiniau;

- Trosglwyddiad o £(53)k allan i Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â Rosa - sef y cyfleuster gwasanaeth TG trawslywodraethol â rheolaethau diogelu cryfach ar gyfer gwybodaeth sensitif.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

- 3.7** Ni fu unrhyw newid i'r llinell sylfaen trafodiadau ariannol ers Cyllideb Derfynol 2024-25.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2024-25 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM DYRANIAD MEG
	Cyllidol	Anghyllid -ol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredin-ol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	11,362,008	323,561	11,685,569	526,476	0	526,476	314,909	2,281	317,190	12,529,235
Llywodraeth Leol a Thai	5,118,557	0	5,118,557	1,071,630	105,809	1,177,439	1,111,401	0	1,111,401	7,407,397
Addysg	1,722,296	281,231	2,003,527	346,127	346	346,473	-105,079	1,519,101	1,414,022	3,764,022
Trafnidiaeth	514,086	291,997	806,083	661,306	13,628	674,934	180,744	0	180,744	1,661,761
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	527,761	19,079	546,840	264,556	20,000	284,556	6,000	0	6,000	837,396
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	434,649	32,137	466,786	289,832	15,615	305,447	76,525	0	76,525	848,758
Cyfiawnder Cymdeithasol	138,417	633	139,050	14,668	-42	14,626	226	0	226	153,902
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	372,552	18,687	391,239	9,721	0	9,721	3,200	0	3,200	404,160
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	20,190,326	967,325	21,157,651	3,184,316	155,356	3,339,672	1,587,926	1,521,382	3,109,308	27,606,631

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon, yn dod i gyfanswm o £27,131k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod.

	Adnoddau Cyllidol £'000			Cyfalaf £'000		
	I	O	Trosglwydd- iadau Net	I	O	Trosglwydd- ladau Net
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,200	-500	700	7,446	0	7,446
Llywodraeth Leol a Thai	1,255	-4,143	-2,888	0	0	0
Addysg	9,848	-564	9,284	0	-373	-373
Trafnidiaeth	0	0	0	3,000	0	3,000
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	200	0	200	1,052	-11,446	-10,394
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	274	-7,525	-7,251	1,373	0	1,373
Cyfiawnder Cymdeithasol	1,143	-1,255	-112	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	340	-273	67	0	-1,052	-1,052
	14,260	-14,260	0	12,871	-12,871	0

4.2 Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

Adnoddau Cyllidol

4.3 Trosglwyddiad o £4,411k o'r BEL Prentisiaethau o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r BEL newydd Gwariant Rhaglen Medr o fewn y MEG Addysg mewn perthynas â chyllid ar gyfer prentisiaethau gradd.

4.4 Trosglwyddiad o £3,700m o'r BEL Cymorth ac Atal Digartrefedd o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid o fewn y MEG Addysg mewn perthynas â nodi ac ymyrryd yn gynnar ym maes digartrefedd.

- 4.5** Trosglwyddiad o £1,304k o'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r BEL Darpariaeth Ôl-16 (CTER) o fewn y MEG Addysg mewn perthynas ag ariannu biwros cyflogaeth.
- 4.6** Trosglwyddiad o £1,255k o BEL y Rhaglen Tlodi Tanwydd o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i'r BEL newydd Cartrefi Cynnes o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai i alinio'r gyllideb â chyfrifoldebau newydd y Cabinet.
- 4.7** Trosglwyddiad o £1,200k o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r BEL Cyllidebau Eraill y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chyllid ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Cyfalaf Cyffredinol

- 4.8** Trosglwyddiad o £7,446k o'r BEL Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Gwasanaethau Craidd y GIG o fewn y BEL Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â datgarboneiddio. £3,822k mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a £3,624k mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- 4.9** Trosglwyddiad o £3,000k o BEL Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith o fewn y MEG Trafnidiaeth i gynyddu cyllid ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol 2024-25.
- 4.10** Trosglwyddiad o £1,052k o'r BEL Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL newydd Twf Gwyrdd Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i alinio'r gyllideb Twf Gwyrdd yn gywir.

4.11 Trosglwyddiad o £1,000k o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i gefnogi'r buddsoddiad i gynyddu capasiti'r maes ailbrosesu plastig yng Nghymru.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol. Nodir y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn uwch na £1m isod:

lechyd a Gofal Cymdeithasol

5.2 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £50,328k rhwng BELs o fewn y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniad sy'n gysylltiedig â chyflogau yn gywir o gronfeydd wrth gefn;
- yn alinio dyraniadau'r Byrddau lechyd Lleol yn gywir;
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol.

Addysg

5.3 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £505,687k ac un trosglwyddiad cyfalaf o £1,200k rhwng BELs o fewn y MEG Addysg, ac mae'r mwyaf sylweddol o'r rhain yn ymwneud â throsglwyddo cyllid i'r BEL Gwariant Rhaglen Medr newydd. Roedd y trosglwyddiadau hyn yn cynnwys:

- £381,138k o gyllid adnoddau o'r BEL Darpariaeth Ôl-16 (CTER);
- £118,556k o gyllid adnoddau o'r BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC;
- £4,826k o gyllid adnoddau o BEL y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER);
- £1,200k o gyllid cyfalaf cyffredinol o'r BEL Seilwaith Addysg.

Trafnidiaeth

5.4 Cafwyd trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £43,053k rhwng BELs o fewn y MEG Trafnidiaeth, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £34,333k i'r BEL Trafnidiaeth Cymru yn cynnwys:
 - £25,840k o'r BEL Cymorth i Fysiau,
 - £5,450k o'r BEL Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol;
 - £3,043k o'r BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol;
- £8,600k i'r BEL Diogelwch ar y Ffyrdd yn cynnwys:
 - £5,000k o'r BEL Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol;
 - £3,600k o'r BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol.

Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

5.5 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,551k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £10,180k rhwng BELs yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £1,550k o gyllid adnoddau o'r BEL Cynllun Buddsoddi Gwledig i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r broses o roi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar waith;
- £6,380k o gyllid cyfalaf o BEL y Cynllun Buddsoddi Gwledig i'r BEL TGCh Taliadau Gwledig i dalu'r gofynion ariannu ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- £2,300k o gyllid cyfalaf o'r BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru i ariannu gwaith hanfodol.

Yr Economi, Ynni a Chynllunio

5.6 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £4,523k rhwng BELs o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £1,396k o'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warrant i Bobl Ifanc i BEL Busnes Cymru mewn perthynas â chyllid hunangyflogaeth;

- £1,242k o'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warrant i Bobl Ifanc i'r BEL Prentisiaethau mewn perthynas â'r Tîm Datrysiadau Digidol a Gwasanaethau TGCh;
- £1,100k o'r BEL Darlledu a'r Cyfryngau i'r BEL Cymru Greadigol mewn perthynas ag uno BELs yn dilyn ailstrwythuro'r Cabinet.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

5.7 Cafwyd dau drosglwyddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £6,278k rhwng BELs yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

- Trosglwyddwyd £5,221k o'r BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol i'r BEL newydd Costau TGCh i alinio cyllidebau â chyfrifoldebau dirprwyedig;
- Trosglwyddwyd £1,057k o'r BEL Buddsoddi i Arbed i'r BEL Ad-daliadau Buddsoddi i Arbed.

6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

6.1 Mae'r gyllideb yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Mae crynodeb ar gael yn nhabl 6.1 isod ac mae rhestr lawn yn rhoi manylion yr holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.2 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £492,068k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys £9,283k yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith, ynghyd â'r dyraniadau MEG canlynol:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £373,278k:
 - I'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG, yn cynnwys:
 - £141,300k mewn perthynas â chyllid canlyniadol o Gyllideb mis Mawrth y DU i gefnogi dyraniadau i GIG Cymru;
 - £117,070k mewn perthynas â SCAPE;
 - £75,908k mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £39,000k i gefnogi'r dyfarniad cyflog i feddygon.
- Llywodraeth Leol a Thai - £63,811k:
 - I'r BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol mewn perthynas â SCAPE, yn cynnwys:
 - £60,706k mewn perthynas ag Athrawon mewn Ysgolion (cyn 16);
 - £3,105k mewn perthynas â'r Gwasanaeth Tân.
- Addysg - £15,663k:
 - £11,925k i'r BEL Gwariant Rhaglen Medr mewn perthynas â SCAPE, yn cynnwys:
 - £8,319k mewn perthynas â cholegau addysg bellach;
 - £3,606k mewn perthynas â'r 6ed Dosbarth.

- £3,738k i'r BEL Dysgu i Droseddwrwyr mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer dysgu a sgiliau yng Ngharchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Trafnidiaeth - £18,720k:
 - I BEL Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â'r cyllid a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EF yn ymwneud â Llinellau Craidd y Cymoedd.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £39k:
 - I'r BEL Rheolaethau'r Ffin mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EF.
- MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio - £5,000k:
 - O ran cyllid adnoddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer Cadw a'r cyrff hyd braich diwylliant a chwaraeon, yn cynnwys:
 - £1,500k i BEL Cyngor Celfyddydau Cymru;
 - £1,000k i BEL Chwaraeon Cymru;
 - £940k i BEL Amgueddfa Cymru;
 - £745k i BEL Cadw;
 - £725k i BEL Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - £90k i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £5,461k:
 - £2,590k i'r BEL Cymunedau Cydlynus mewn perthynas â'r ymateb dyngarol i Wcráin;
 - £1,391k i'r BEL Gwasanaethau Cyngori, yn cynnwys
 - £1,291 mewn perthynas â chyngor ar ddyledion;
 - £100k mewn perthynas ag â'r Ymgyrch Gyfathrebu Costau Byw.
 - £1,000k i'r BEL Cynhwysiant Digidol mewn perthynas â rhaglen Cymunedau Digidol Cymru;

- £480k i'r BEL Cefnogi Cymunedau i gefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol yng Nghymru.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £813k:
 - I'r BEL Ymchwil Ganolog mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.3 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o (126,486)k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £(124,203)k yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith;
- £(2,283)k o'r BEL Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn cynnwys:
 - £(2,120)k o'r BEL Cost Benthyca mewn perthynas â gostyngiad mewn taliadau llog;
 - £(110)k o'r BEL Trethi Datganoledig mewn perthynas â'r taliad i Drysorlys EF ar gyfer darparu rhagolygon trethi annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol;
 - £(53)k o'r BEL Argyfyngau Sifil Posibl a Chydnerthedd Cenedlaethol fel rhan o newid o adnoddau i gyfalaf i ariannu'r trosglwyddiad i Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â Rosa a weithredwyd fel rhan o Brif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.4 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £124,235k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys £106,782k yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith, ynghyd â'r dyraniadau MEG canlynol i dalu am ofynion ychwanegol nad ydynt yn arian parod:

- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £2,253k:
 - £1,545k i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru;

- £700k i'r BEL Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol;
- £4k i'r BEL Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaeth;
- £4k i'r BEL Dileu TB.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £15,038k:
 - £11,000k i'r BEL Seilwaith Eiddo;
 - £1,128k i BEL Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - £1,000k i'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes;
 - £900k i BEL Amgueddfa Cymru;
 - £550k i'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol;
 - £400k i'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc;
 - £50k i'r BEL Twristiaeth;
 - £10k i'r BEL Cymru Greadigol.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £162k:
 - £125k i BEL Corff Llais y Dinesydd;
 - £27k i BEL y Comisiynydd Pobl Hŷn;
 - £10k i BEL Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.5 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £(241,808)k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon i adlewyrchu gostyngiad mewn gofynion anghyllidol. Mae'r rhain yn cynnwys:

